## Crynodeb gweithredol

Nod y rhaglen Meithrin Perthnasoedd Gyda'n Gilydd (RBT) yw datblygu ymarfer sy'n ystyriol o drawma ar draws gwasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 10 a 21 oed yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae trawma'n digwydd pan fydd rhywun yn profi rhywbeth niweidiol neu drallodus iawn sy'n effeithio'n barhaol ar ei lesiant. Mae ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn golygu siapio gwasanaethau a chymorth mewn ffyrdd sy'n cydnabod yr effaith hon ac sy'n ceisio osgoi achosi rhagor o niwed. Mae'r rhaglen, a ddatblygwyd gan y Trauma Recovery Academy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn darparu rhwng tri a phum diwrnod o hyfforddiant a chefnogaeth i ymarferwyr ar draws nifer o wasanaethau. Mae'r gwasanaethau dan sylw yn cynnwys cymorth cynnar (Canolfannau Cymorth Cynnar a Datblygu Ieuenctid), cymorth atal wedi'i dargedu a chymorth i deuluoedd (Cyrion Gofal a Gwasanaethau Plant) a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid statudol. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu ar sail eu hanghenion, ac mae'r rheini sydd â lefelau is o drawma yn cael eu cefnogi gan ymarferwyr hyfforddedig. Ar gyfer y rheini sydd â phrofiadau cymedrol a difrifol o drawma, cynhelir cyfarfod aml-asiantaeth i fapio hanes y trawma. Ar gyfer achosion o drawma difrifol, mae ymarferydd arweiniol a seicolegydd clinigol yn arwain y gwaith o ddatblygu cynllun cymorth, sy'n cael ei fonitro a'i addasu dros amser. Nod y rhaglen yw diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn well, gwella eu llesiant a lleihau problemau ymddygiad a throseddu.

Ariannodd y Gronfa Waddol Ieuenctid (YEF) a'r Swyddfa Gartref hap-dreial dan reolaeth o'r rhaglen Meithrin Perthnasoedd Gyda'n Gilydd, gydag ymarferwyr a phlant a phobl ifanc yn cael eu dewis ar hap i fod yn rhan o'r rhaglen neu gael gwasanaethau fel arfer. Roedd 401 o blant a phobl ifanc yn rhan o'r treial (200 mewn ymyriadau, 201 mewn hap-dreialon dan reolaeth), ac roeddent yn gysylltiedig â 110 o ymarferwyr (56 mewn ymyriadau, 54 mewn hap-dreialon dan reolaeth). Nod y gwerthusiad oedd canfod a oedd y rhaglen wedi lleihau ymddygiad troseddol plant a phobl ifanc dros gyfnod o chwe mis, wedi'i fesur gan y Raddfa Hunan-Adrodd Drwgweithredu. Roedd hefyd yn mesur yr effaith ar ganlyniadau eraill sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc (problemau emosiynol ac ymddygiadol, llesiant, iechyd seicolegol, cydlyniant teuluol, cyfranogiad yr heddlu, presenoldeb yn yr ysgol, atal o'r ysgol dros dro a gwaharddiadau parhaol o'r ysgol) ac ar ymarferwyr (llesiant ac agweddau at ymarfer sy'n ystyriol o drawma). Bydd atodiad i'r adroddiad sy'n edrych ar effaith y rhaglen dros gyfnod o 12 mis yn cael ei gyhoeddi yn 2027. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys gwerthuso gweithredu a phrosesau i edrych ar bethau a oedd yn rhwystro ac yn hwyluso gweithredu a phrofiad plant ac ymarferwyr o'r rhaglen. Roedd hyn yn seiliedig ar gyfweliadau gydag 16 o blant a phobl ifanc, 15 o staff cyflwyno ymyriadau, 10 o rieni/gofalwyr ac 8 ymarferydd o'r gwasanaethau dan sylw. Cynhaliwyd yr astudiaeth rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Medi 2025. Roedd 97% o'r plant a'r bobl ifanc yn y treial yn dod o gefndir ethnig Gwyn.

| Casgliadau allweddol |
|---|
| Roedd Meithrin Perthnasoedd Gyda'n Gilydd yn dangos effaith **gadarnhaol gymedrol** ar ymddygiad troseddol plant a phobl ifanc. Dywedodd plant a phobl ifanc a oedd yn gysylltiedig ag ymarferwyr a oedd wedi bod yn rhan o'r rhaglen Meithrin Perthnasoedd Gyda'n Gilydd fod ganddynt lefelau is o ymddygiad troseddol na phlant a oedd yn gysylltiedig ag ymarferwyr nad oeddent wedi bod yn rhan o'r rhaglen. Mae gan y canlyniad hwn **sgôr cadernid gymedrol**. |
| Roedd canlyniadau eilaidd y Rhaglen yn gymysg chwe mis ar ôl dechrau'r treial: roedd wedi cael effaith gadarnhaol fach yn gyffredinol ar ymddygiad plant a phobl ifanc, perthnasoedd cyfoedion, iechyd seicolegol, gwrthdaro teuluol a phresenoldeb yn yr ysgol; roedd wedi cael effaith gadarnhaol gymedrol ar allu plant a phobl ifanc i reoli eu hemosiynau, a'u problemau ymddygiad, mewnoli eu hymddygiad, a'u llesiant. Roedd y Rhaglen yn dangos effaith negyddol gymedrol ar orfywiogrwydd, ymddygiad cymdeithasol, allanoli ymddygiad, cydlyniant teuluol a mynegiant, a dim effaith ar waharddiadau o'r ysgol. Canlyniadau eilaidd yw'r rhain a dylid eu trin yn ofalus. |

| |
|---|
| Roedd ymarferwyr yn credu bod yr hyfforddiant yn gadarnhaol ac yn teimlo'n hyderus i'w ddefnyddio. Roeddent yn tynnu sylw at werth cyfarfodydd aml-asiantaeth a'r pwyslais ar neilltuo amser i feithrin perthnasoedd. Fodd bynnag, roedd rhai staff yn teimlo nad oedd y dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma yn wahanol iawn i'w hymarfer presennol, ei fod yn cynnwys llwyth gwaith ychwanegol a'u bod yn wynebu heriau o ran ei gydlynu ar draws gwasanaethau, a bod mewnbwn gan seicolegwyr clinigol yn gyfyngedig. |
| Roedd y canfyddiadau ymysg plant a phobl ifanc yn gymysg. Er bod llawer wedi nodi gwelliannau o ran rheoli emosiynau, dirnadaeth a chynnydd personol, disgrifiodd eraill ddisgwyliadau heb eu bodloni, cyfathrebu aneglur, ac ymddieithrio, er ei bod yn anodd gwybod a oedd hyn yn gysylltiedig â'r Rhaglen neu â darparu gwasanaethau'r Cyngor. |
| Roedd y treial yn cynnwys grŵp cymysg o blant a phobl ifanc gyda gwahanol lefelau o drawma ac ymddygiad troseddol, ac mae'n anodd datod effaith y Rhaglen o fewn y grŵp. |

## Sgôr cadernid YEF

Mae gan y canfyddiadau hyn sgôr cadernid **gymedrol**. Roedd y treial yn hap-dreial dan reolaeth â dau grŵp ac roedd wedi'i ddylunio'n dda. Roedd y gyfradd gadael yn eithaf isel. Ni chafodd 16% o blant a ddechreuodd y treial eu cynnwys yn y dadansoddiad terfynol. Ni nodwyd unrhyw fygythiadau sylweddol i ddilysrwydd mewnol. Fodd bynnag, mae treialon sy'n ceisio mesur yr effaith ar droseddu yn aml yn gofyn am samplau mawr iawn i ganfod effeithiau ystyrlon, ac yn y treial hwn roedd maint y sampl yn llai na'r hyn sy'n ddelfrydol.

## Dehongli

Roedd Meithrin Perthnasoedd Gyda'n Gilydd yn dangos effaith **gadarnhaol gymedrol** ar ymddygiad troseddol plant a phobl ifanc. Roedd plant a oedd yn gysylltiedig ag ymarferwyr a oedd yn rhan o'r rhaglen yn adrodd ar lefelau is o ymddygiad troseddol na phlant a oedd yn gysylltiedig ag ymarferwyr nad oeddent yn rhan o'r rhaglen. Mae gan y canlyniad hwn **sgôr cadernid gymedrol**. Roedd canlyniadau eilaidd y Rhaglen yn gymysg chwe mis ar ôl dechrau'r treial: roedd wedi cael effaith gadarnhaol fach yn gyffredinol ar ymddygiad plant a phobl ifanc, perthnasoedd cyfoedion, iechyd seicolegol, gwrthdaro teuluol a phresenoldeb yn yr ysgol; roedd wedi cael effaith gadarnhaol gymedrol ar allu plant a phobl ifanc i reoli eu hemosiynau, a'u problemau ymddygiad, mewnoli eu hymddygiad, a'u llesiant. Roedd y Rhaglen yn dangos effaith negyddol gymedrol ar orfywiogrwydd, ymddygiad cymdeithasol, allanoli ymddygiad, cydlyniant teuluol a mynegiant, a dim effaith ar waharddiadau o'r ysgol. Canlyniadau eilaidd yw'r rhain a dylid eu trin yn ofalus. Mae ansicrwydd ystadegol ynghylch yr holl ganlyniadau, ac mae'r canfyddiadau hefyd yn gyson â'r ffaith nad oes unrhyw effaith. Roedd cyfraddau gadael, ymateb isel ac ansawdd data wedi dylanwadu ar effaith y Rhaglen ar wahardd plant a phobl ifanc o'r ysgol, diwrnodau yn y llys, diwrnodau yn y ddalfa, colli diwrnodau gwaith, rhybuddion gan yr heddlu ac ar lesiant ymarferwyr a'u hagwedd at ymarfer sy'n ystyriol o drawma, ac nid yw'n cael ei hystyried yn ddigon dibynadwy.

Roedd barn ymarferwyr ar yr hyfforddiant yn gadarnhaol ac roeddent yn teimlo'n hyderus wrth ei ddefnyddio yn eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Roeddent yn tynnu sylw at werth cyfarfodydd aml-asiantaeth a'r pwyslais ar neilltuo amser i feithrin perthnasoedd. Dywedodd ymarferwyr fod effeithiolrwydd yr ymyriad yn dibynnu ar feithrin perthynas gref â phlant a phobl ifanc, ochr yn ochr â sefydlogrwydd perthynol, cyfathrebu clir, capasiti sefydliadol a'r gallu i reoli gofynion emosiynol. Roedd y canfyddiadau ymysg ymarferwyr a phlant a phobl ifanc yn gymysg. Teimlai rhai staff nad oedd y dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma yn wahanol iawn i'w hymarfer presennol, ac, felly, nid oedd cyfiawnhad dros yr amser a'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i roi'r rhaglen ar waith. Canfuwyd bod y rhaglen yn cynnwys llwyth gwaith ychwanegol, roeddent yn wynebu heriau o ran ei chydlynu ar draws gwasanaethau ac roeddent yn teimlo bod y mewnbwn gan seicolegwyr clinigol yn gyfyngedig. Er bod llawer o blant a phobl ifanc wedi nodi gwelliannau o ran rheoli emosiynau a chynnydd personol, disgrifiodd eraill ddisgwyliadau heb eu bodloni, cyfathrebu aneglur ac ymddieithrio.

Roedd y treial yn cynnwys grŵp cymysg o blant a phobl ifanc gyda gwahanol lefelau o drawma ac ymddygiad troseddol, ac mae'n anodd datgysylltu effaith y Rhaglen o fewn y grŵp amrywiol hwn. Nid oedd gan 37% o blant a phobl ifanc unrhyw drawma, a dim ond tri (1.5%) oedd wedi profi lefelau uchel o drawma. Wrth edrych ar y proffil troseddu, nid oedd 31% o blant a phobl ifanc wedi troseddu yn ystod y chwe mis cyn yr ymyriad. Gallai ymchwil bellach archwilio'r effaith ar blant a phobl ifanc sydd â lefelau uchel o drawma ac sydd â hanes blaenorol o droseddu. Yn gyffredinol, roedd y gwerthusiad o Meithrin Perthnasoedd Gyda'n Gilydd yn dangos effaith gadarnhaol gymedrol ar ymddygiad troseddol plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, roedd gan y gwerthusiad rai cafeatau ac roedd canfyddiadau ymarferwyr a chyfranogwyr o'r rhaglen yn gymysg, gan ddangos costau a heriau darparu ymyriadau sy'n ystyriol o drawma yn effeithiol ar draws nifer o asiantaethau. Mae'r gwerthusiad hwn yn un o'r gwerthusiadau cadarn cyntaf o ymarfer sy'n ystyriol o drawma mewn gwasanaethau statudol yn y DU, ac mae'n cyfrannu at lenwi'r bylchau presennol mewn tystiolaeth. Dim ond canfyddiadau un astudiaeth y mae'r adroddiad hwn a'r canlyniadau sylfaenol ac eilaidd yn eu cyflwyno. Wrth ystyried y goblygiadau, dylai gweithwyr proffesiynol rheng flaen, llunwyr polisïau a chomisiynwyr gwasanaethau ystyried y gwerthusiad o brosesau yn ofalus a defnyddio eu barn broffesiynol eu hunain.

## Crynodeb o'r effaith

| Canlyniad | Maint yr effaith (cyfwng hyder 95%) | Effaith | Cadernid y dystiolaeth | Nifer y plant | Gwerth-P |
|---|---|---|---|---|---|
| Drwgweithredu wedi'i hunan-adrodd | −0.151 (−0.365 i 0.064) | lled gadarnhaol |  | 335 | 0.714 |